Embargo Llym tan 24 Tachwedd 2009.

PROSIECT GWYRDD

PRESS RELEASE/ **DATGANIAD I'R WASG**

TROI PROBLEM YN ADNODD
PROSIECT GWYRDD YN SYMUD TUAG AT GAFFAEL

Wrth i reoli gwastraff barhau i newid yn y DU, mae 5 awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru: Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg, wedi dod at ei gilydd fel 'Prosiect Gwyrdd' i ddarparu ateb cost effeithiol i wastraff gweddilliol ar ôl gwneud y mwyaf o ailgylchu a chompostio ym mhob ardal. Mae pob un o'r partneriaid wedi cael caniatâd oddi wrth bob Cyngor i hysbysebu gofynion y bartneriaeth i'r farchnad.

Mae hysbyseb Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd sy'n amlinellu'r gofynion, wedi ei hanfon at y farchnad, gan ddynodi cychwyn ar broses gaffael gymhleth.

Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i leihau, ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gymaint o wastraff ag sy'n bosibl, gan ymdrechu i gyrraedd y targedau heriol a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cydnabyddir y bydd tua 30%-35% o wastraff ar ôl, wedi cwrdd â thargedau ailgylchu a chompostio a rhaid canfod ateb ar gyfer sut i drin y gwastraff gweddilliol hwn, er mwyn claddu cyn lleied â phosibl mewn safleoedd tirlenwi.

Mae'r bartneriaeth yn dechnolegol niwtral a bydd yn bwrw golwg dros bob technoleg a all gael ei chynnig i'r contract. Mae'r bartneriaeth yn ymwybodol o nifer o gwmnïau sy'n cynnig atebion technolegol gwahanol sydd â diddordeb yn y contract hwn.

(Mwy)

Bydd pob cais yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf cytunedig, sy'n cynnwys effeithiau amgylcheddol, cynaladwyedd, darpariaeth gwasanaeth, pris a gwerth am arian.

Mae'r opsiynau sydd ar gael yn cynnwys prosesau trefnu pellach; prosesau sychu a thorri gwastraff yn fân i wneud tanwydd y gellir ei losgi'n effeithlon i greu ynni; trin y gwastraff gyda stêm ar dymheredd uchel i adennill deunyddiau, troi gwastraff yn nwy a defnyddio'r nwy yn effeithlon i greu ynni, treuliad anaerobig neu nifer o opsiynau effeithlon eraill i losgi gwastraff ar dymereddau gwahanol i greu gwres a thrydan.

Fel y cytunwyd yn yr adroddiad i bob Cyngor, mae'r bartneriaeth yn cael ei rheoli gan Gydbwyllgor, sy'n cynnwys dau Gynghorydd o bob Cabinet neu Weithrediaeth o bob awdurdod. Bydd y Cydbwyllgor hefyd yn rheoli'r project drwy'r broses 'Deialog Cystadleuol' a bydd y penderfyniad terfynol i benodi contractwr yn mynd yn ôl i bob Cyngor.

Bydd pob cynigiwr yn cael cyflwyno uchafswm o ddau gynnig i'w hasesu. Gallant fod yn wahanol o ran math o dechnoleg neu leoliad safle neu faint.

Fel yr eglurwyd yn hysbysiad Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, bydd y bartneriaeth yn trafod yr opsiynau a'r cyfleoedd i weithio gyda thrydydd parti gyda'r cynigwyr, yn y broses 'Ddeialog Cystadleuol' sy'n edrych ar fuddion ariannol posibl i'r trethdalwr.

Sefydlir system Cyd Graffu a fydd yn cael ei ariannu'n annibynnol gan adrannau craffu pob awdurdod i fonitro'r caffael wrth i'r project fwrw yn ei flaen. Disgwylir i'r broses hon ymgysylltu â rhanddeiliaid a grwpiau sydd â diddordeb.

Datblygwyd gwefan newydd - www.prosiectgwyrdd.co.uk – i roi gwybod

(Mwy)

I’r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol am y nodau a’r opsiynau sydd ar gael. Mae Grŵp Ffocws Rhanbarthol yn cael ei sefydlu i ymgysylltu gyda detholiad o breswylwyr ar draws y rhanbarth.

Bydd y wefan yn parhau i gael ei diweddaru, bydd sioeau teithiol yn cael eu cynnal ym mhob
ardal Gyngor, cylchlythyrau’n cael eu hanfon i randdeiliaid dynodedig, y cyfryngau’n cael eu diweddaru’n rheolaidd a briffio cyfathrebu mewnol yn cael eu rhoi i staff a Chynghorwyr ar draws y 5 awdurdod.

Dywedodd Y Cynghorydd Mark Stevens, Cadeirydd y Cydbwyllgor ar gyfer Prosiect Gwyrdd: “Mae pawb yn cynhyrchu gwastraff ac mae angen i bawb barhau i gymryd cyfrifoldeb dros ostwng, ailddefnyddio ac ailgylchu gymaint o’u gwastraff ag sy’n bosibl gan wella ymhellach ar y camau breision wnaeth Cymru wrth gyrraedd 41% yn ddiweddar ar gyfer ailgylchu a chompostio. Mae pob un o'r Cynghorau partner yn parhau i osod strategaethau cynaliadwy i wneud y mwyaf o ailgylchu a chompostio, a defnyddio gwastraff fel adnodd i gyrraedd y targed o 70%. Fodd bynnag rhaid canfod ateb ar gyfer y gwastraff sy'n weddill.

“Mae hysbyseb y Cylchgrawn Ewropeaidd yn cadarnhau y bydd dechrau’r project yn cyflawni ateb cynaliadwy, buddiol ar gyfer y gwastraff sy’n weddill a disgwylir mai dyma fydd y cydweithio mwyaf a gafwyd rhwng y cyhoedd a’r sector preifat yn hanes Cymru. Bydd y Bartneriaeth yn cyflawni ateb carbon isel i wastraff ar ôl gwneud y mwyaf o ailgylchu a chompostio, lleihau rhoi gwastraff mewn tirlenwad gymaint â phosibl, cael y gwerth mwyaf posibl allan o wastraff fel adnodd a rhoi’r gwerth gorau i’r trethdalwr.”

Dywedodd Jane Davidson Gweinidog yr Amgylchedd Llywodraeth Cynulliad Cymru:

“Wrth i ni anelu at ddim tirlenwi o gwbl, saif ailgylchu a thrin gwastraff bwyd wedi ei wahanu fel blaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn anffodus ni ellir ailgylchu rhai mathau o wastraff a phan fo hynny’n digwydd

(Mwy)

mae’n gwneud mwy o synnwyr i adfer ynni oddi wrtho yn hytrach na’i dirlenwi.

“Mae digon o dargedau Ewropeaidd gennym a bydd Prosiect Gwyrdd yn helpu tuag at gyfrannu at ein nod o ddim tirlenwi o gwbl. Erbyn 2010, ni fydd mwy na 75% o’r gwastraff dinesig bioddiraddadwy a gynhyrchwyd yn 1995 yn gallu cael ei dirlenwi. Erbyn 2013 dim ond 50% fydd yn gallu cael ei dirlenwi ac erbyn 2020 dim ond 35% fydd yn gallu cael ei dirlenwi."

Nodiadau i Olygyddion:

- Bydd cyfweliadau darlledu ar gael ar 24 Tachwedd rhwng canol dydd a 2pm yn Saesneg a Chymraeg. Cysylltwch â’r rhif isod i wneud cais am gyfweliad.

- Datblygwyd gwefan i hysbysu’r cyhoedd am yr opsiynau sydd ar gael. Ewch i www.prosiectgwyrdd.co.uk a chyfeiriwch unrhyw gwestiynau i info@prosiectgwyrdd.co.uk
- Mae’r targedau canlynol wedi eu gosod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

  2009/10 - 40% (15% ohono'n gompostio, dim yn fwyd penodol)
  2012/13 - 52% (12% ohono'n darged bwyd penodol)
  2015/16 - 58% (14% ohono'n darged bwyd penodol)
  2019/20 - 64% (16% ohono'n darged bwyd penodol)
  2019/20 – mwyafrif o 10% i’w daflu mewn safle tirlenwi
  2024/25 - 65/70% (18% ohono'n darged bwyd penodol)
  2024/25 – mwyafrif o 5% i’w daflu mewn safle tirlenwi
  150kg mwyafrif gwastraff gweddilliol y person y flwyddyn erbyn 2024/25

- Mae cyllid wedi ei sicrhau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy’r Achos Busnes Amlinellol (OBC) a bydd yn cyfrannu 25% o’r ffi gât yn y dyfodol.

- Bydd cyllid ychwanegol ar gyfer Prosiect Gwyrdd hyd at uchafswm o £9.124m mewn blwyddyn gyflawn o weithredu gan ddibynnu ar gymeradwyaeth o’r achos fusnes derfynol ar gyfer y project. Mae lefel y grant a wobrwyir i Broject Gwyrdd wedi ei seilio ar ragolwg o amcangyfrif y gost o ddarparu’r cyfleuster a bydd yn amrywio yn unol â’r gwir gostau pan gymeradwyir yr Achos Fusnes Derfynol.

- Rhaid i’r gwir gyfrifiad aros yn fasnachol gyfrinachol gan y bydd y project yn amodol ar broses dendro fasnachol.

- Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfer rhoi caniatâd i'r project symud yn ei flaen gyda'r caffael, ar gyfer Gweithrediaeth/Cabinet pob Cyngor a phob Cyngor Llawn, ar y dyddiadau canlynol:

  Cabinet Caerffili – 21 Mehefin, Cyngor Llawn – 28 Gorffennaf 2009
  Gweithrediaeth Caerdydd – 11 Mehefin, Cyngor Llawn – 25 Mehefin 2009
  Cabinet Sir Fynwy – 3 Mehefin, Cyngor Llawn – 30 Gorffennaf 2009
  Cabinet Casnewydd – 26 Mai, Cyngor Llawn – 29 Mehefin 2009
  Cabinet Bro Morgannwg – 3 Mehefin, Cyngor Llawn – 30 Mehefin 2009

- Disgwylir i'r caffael ar gyfer y project hwn bara 2 flynedd. Mae'r blaen gynllun yn cael ei grynhoi isod:

  Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn hysbysebu i'r farchnad – Tachwedd 2009
  Holiadur Cyn-Gymhwyster – Gwanwyn 2010
  Deialog gyda chynigwyr – Gwanwyn 2010 tan Haf 2011
  Dewis y cynigiwr – Hydref 2011
  Llunio fersiwn terfynol o'r contract a chynllunio - 2012

(Mwy)

- Cynhaliwyd diwrnod rhanddeiliad ym Medi i ymgysylltu gyda rhanddeiliad allweddol wrth i'r Meini Prawf Gwerthuso agosáu. Trafodwyd materion penodol gyda'r grŵp, gan drafod blaenoriaethau ar agweddau technegol, cymdeithasol, ariannol a chyfreithiol y Meini Prawf Gwerthuso.
- Mae 'Deilliant Gwastraff' sy'n llunio 'gwastraff gweddilliol' wedi eu dadansoddi yn 2003 a Mehefin 2009 gan AEA Technology. Defnyddiwyd yr ymchwil yn 2003 i lunio data ar gyfer Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Caerdydd, Sir Fynwy a Bro Morgannwg, tra roedd data cyfansoddiad penodol ar gael ar gyfer Caerffili a Chasnewydd. Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru AEA Technology i wneud ymchwil pellach ym Mehefin 2009. Bydd yr ymchwil newydd hwn yn cael ei asesu yn erbyn y data a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd fel bod Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn rhoi swm a chyfansoddiad 'gwastraff gweddilliol' ar gyfer caffael. Mae Atodiad A yn dangos crynodeb o'r 'Deilliant Gwastraff'.
- Mae Prosiect Gwyrdd yn disgwyl darparu safle opsiynol yn Tatton Road yng Nghasnewydd, fel bod cynigwyr yn ei ystyried ynghyd â'u safleoedd eu hunain fel rhan o'u cynigion. Bydd y safle opsiynol yn cynyddu cystadleuaeth yn y farchnad, gan ddarparu dewis gwahanol ar gyfer y cynigwyr hynny, nad sydd, efallai â'r fantais o safle sydd o dan eu rheolaeth. Mae Atodiad b yn dangos sut gafodd y safle ei ddynodi ac mae atodiad c yn dangos ardal a ffiniau'r safle. Bydd unrhyw safle a ddefnyddir, boed yn safle'r cynigiwr neu'r safle opsiynol, yn amodol ar gael y caniatâd statudol angenrheidiol gan gynnwys caniatáu cynllunio a gweithredu.

(Diwedd)

Paratowyd gan Prosiect Gwyrdd
E-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
Ffôn: 02920 87 3273